# Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd – PREIFAT Cryno

## COFNODION, PENDERFYNIADAU A CHAMAU GWEITHREDU I'W CYMRYD

12:30 – 13:30 08/04/2025 MS Teams

| | |
|---|---|
| Cadeirydd | Marian Wyn Jones |

| Yn Bresennol (Aelodau) | | Teitl | Sefydliad |
|---|---|---|---|
| Marian Wyn Jones (Cadeirydd) | MW-J | Aelod Annibynnol, Cadeirydd | IGDC |
| Ruth Glazzard | RG | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Bwrdd | IGDC |
| Alistair Klaas Neill | AKN | Aelod Annibynnol, Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd | IGDC |
| Marilyn Bryan Jones | MB-J | Aelod Annibynnol | IGDC |
| Yn bresennol | | | |
| Stephen Chaney | StC | Pennaeth Archwilio Mewnol | Archwilio Mewnol PCGC |
| Nathan Couch | NC | Arweinydd Archwilio Perfformiad | Archwilio Cymru |
| Chris Darling | CD | Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |
| Mark Edwards (ar gyfer eitem 5.2) | ME | Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth | IGDC |
| Claire Osmundsen-Little | CO-L | Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | IGDC |
| Samantha Morgan (ar gyfer eitemau 5.1 a 5.3) | SM | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | IGDC |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Julie Robinson | JR | Cydlynydd Llywodraethu Corfforaethol | IGDC |
| Laura Tolley | LT | Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol / Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd | IGDC |

| Ymddiheuriadau | | | |
|---|---|---|---|
| Chris Moreton | CM | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes | IGDC |

| Acronymau | | | |
|---|---|---|---|
| IGDC | Iechyd a Gofal Digidol Cymru | AS | Archwilio a Sicrwydd |
| AIA | Awdurdod Iechyd Arbennig | DPIF | Cronfa Fuddsoddi Blaenoriaethau Digidol |
| BAF | Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd | PCGC | Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| WICIS | Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Dwys Cymru | RISP | Caffael System Gwybodaeth Radioleg |
| INPS | In Practice Systems | | |

| Rhif yr Eitem | Eitem | Canlyniad | Cam Gweithredu |
|---|---|---|---|
| 1 | MATERION RHAGARWEINIOL | | |
| 1.1 | **Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Marian Wyn Jones, bawb i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd preifat.<br>Rhoddwyd croeso arbennig i'r rhai oedd yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.2 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Cafwyd ymddiheuriadau gan:<br>Chris Moreton, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid a Sicrwydd Busnes | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 1.3 | **Datganiadau o Fuddiant**<br>Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 2 – AGENDA GYDSYNIO | | | |
| 2.1 | **Camau Gweithredu Archwilio (Preifat)**<br>Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gamau gweithredu preifat hwyr a bod yr holl gamau gweithredu a oedd yn weddill ar y trywydd iawn i'w cwblhau erbyn eu dyddiad targed.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Camau Gweithredu Archwilio (Preifat). | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| RHAN 3 – BUSNES Y CYFARFOD | | | |
| 3.1 | **Cofnodion Preifat heb eu cadarnhau o'r cyfarfod blaenorol ar 21 Ionawr 2025**<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**GYMERADWYO'R** cofnodion fel cofnod cywir o drafodaeth. | Cymeradwywyd | Dim i'w Nodi |
| 3.2 | **Cofnod Gweithredu**<br>Nododd y Pwyllgor nad oedd unrhyw gamau | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gweithredu wedi'u nodi o'r cyfarfod diwethaf.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI** statws y Cofnod Gweithredu. | | |
| RHAN 4 | ARCHWILIO A RISG LLYWODRAETHU | | |
| 4.1 | **Adroddiad Diweddaru ar Adolygiad Llywodraethu DDaT**<br>Cyflwynodd Chris Darling, Cyfarwyddwr Materion Corfforaethol/Ysgrifennydd y Bwrdd, yr adroddiad i'r Pwyllgor, gan roi'r uchafbwyntiau canlynol:<br>• Cychwynnwyd adolygiad o drefniadau llywodraethu Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) ar draws GIG Cymru ym mis Mehefin y llynedd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gofal Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad gan Gyfarwyddwr yn adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda Grŵp Gorchwyl a Gorffen.<br>• Gweithiodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen drwy'r argymhellion dros gyfnod o chwe mis.<br>• Roedd y papurau'n ymwneud ag allbwn yr adolygiad ac roedd pob argymhelliad yn ymwneud ag elfen benodol o'r adolygiad. Roedd y Prif Swyddog Digidol yn Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r argymhellion.<br>Ers cyhoeddi'r papurau, roedd nifer o'r argymhellion yn y broses o gael eu rhoi ar waith.<br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br>**NODI'R** Diweddariad ar Adolygiad Llywodraethu DDaT er **SICRWYDD**. | Sicrwydd | Dim i'w nodi |
| 4.2 | **Diweddariad Cyfrifyddu**<br>Cyflwynodd Claire Osmundsen-Little (CO-L), Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid, y diweddariad cyfrifyddu ar y canlynol:<br>• System Wybodaeth Gofal Dwys Cymru (WICIS)<br>• Caffael System Gwybodaeth Radioleg (RISP)<br>• In Practice Systems (INPS) | Nodwyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Penderfynodd y Pwyllgor:<br>NODI'R diweddariad Cyfrifyddu. | | |
| RHAN 5 | ARCHWILIO A RISG | | |
| 5.1 | Archwilio Mewnol<br>Prosesau Recriwtio<br>Cyflwynodd Stephen Chaney (StC), Pennaeth Archwilio Mewnol, yr adolygiad o Brosesau Recriwtio IGDC a oedd wedi derbyn ***Sicrwydd Cyfyngedig***.<br>Cadarnhaodd y Pwyllgor y gofynnwyd am yr adolygiad hwn yn dilyn achos o Chwythu'r Chwiban, a chroesawodd y canfyddiadau a oedd yn gyfle da i ddysgu.<br>Ymatebodd Samantha Morgan, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, i'r pwyntiau a godwyd a rhoddodd sicrwydd bod y sefydliad wedi ymrwymo i sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud.<br>Gofynnodd y Pwyllgor am adroddiad ar gynnydd ar gamau gweithredu a ddeilliodd o'r archwiliad. Gofynnodd yr aelodau hefyd am rannu'r archwiliad gyda'r tîm Gweithredol er mwyn cael ymateb ar unwaith i'r gofynion ac i adolygu a chytuno ar gefnogaeth bellach a chynllun gweithredu ar gyfer gwella.<br>Penderfynodd y Pwyllgor<br>DDERBYN y diweddariad ar yr adolygiad o'r Broses Recriwtio er SICRWYDD. | Nodwyd | |
| 5.2 | Cynllun Blynyddol yr Uned Seibergadernid<br>Cyflwynodd Mark Edwards, Prif Swyddog Diogelwch Gwybodaeth, Gynllun Blynyddol yr Uned Seibergadernid.<br>Roedd Llywodraeth Cymru wedi gofyn am Gynllun Blynyddol yr Uned Seibergadernid ar gyfer 2025/26 ynghyd â Siarter wedi'i diweddaru. Roedd y rhain wedi'u cyflwyno ym mis Chwefror 2025 ac yn aros am adborth. Roedd y Cynllun Blynyddol wedi cael ei adolygu gan Fwrdd Rheoli IGDC.<br>Roedd cyfrifoldebau'r Uned Seibergadernid a'r amcanion ar gyfer y flwyddyn nesaf wedi'u hamlinellu. | Cymerad wywyd | Dim i'w nodi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**GYMERADWYO** Cynllun Blynyddol yr Uned Seibergadernid | | |
| 5.3 | **Adolygiad Diwylliant – diweddariad ar lafar ar y Cynllun Gweithredu**<br><br>Mynychodd Samantha Morgan (SM), Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol, y cyfarfod i roi diweddariad ar lafar manwl ar y cynllun gweithredu a gynhyrchwyd o ganlyniad i Adolygiad Diwylliant diweddar.<br><br>Canmolodd y Pwyllgor SM ar y cynllun a'r cynnydd a wnaed hyd yma a bydd y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau cylchol ar hyn maes o law.<br><br>**Penderfynodd** y Pwyllgor:<br><br>**NODI'R** diweddariad ar y Cynllun Gweithredu er **SICRWYDD**. | Er Sicrwydd | |
| RHAN 6 | MATERION I GLOI | | |
| 6.1 | **Adroddiad ar Brif Bwyntiau'r Pwyllgor i'r Bwrdd**<br><br>Byddai'r eitemau oedd i'w hamlygu i'r Bwrdd yn cael eu trafod y tu allan i'r cyfarfod oherwydd cyfyngiadau amser. | Trafodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.2 | **Unrhyw Faterion Brys eraill**<br><br>Ni chodwyd unrhyw faterion brys eraill i'w nodi. | Nodwyd | Dim i'w nodi |
| 6.3 | **Dyddiad ac Amser y Cyfarfod Nesaf:**<br><br>• 08 Gorffennaf 2025. | Nodwyd | Dim i'w nodi |